

Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Tachwedd 2020

Annwyl Lesley,

Trefniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro ar gyfer diwedd y cyfnod gweithredu.

Yn dilyn eich ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2020, ac yn dilyn eich datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Adroddiad y Tasglu Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ('y Tasglu'), cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i holi am nifer o faterion ymhellach.

Yn seiliedig ar ein trafodaethau â chi, roeddem wedi rhagweld y byddai adroddiad y Tasglu, a'ch ymateb dilynol i'r adroddiad hwnnw, yn helpu i egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu trefniadau llywodraethu amgylcheddol dros dro. Yn anffodus, nid felly y mae.

Nodwn nad yw adroddiad y Tasglu yn ymdrin â'r mesurau dros dro. Y mae, fodd bynnag, yn egluro bod y Tasglu wedi cyflwyno cynigion ar gyfer mesurau dros dro ichi ym mis Hydref 2019. Rydym yn siomedig na welsoch yn dda i rannu'r cynigion â ni, ac nad ydych wedi ymateb yn gyhoeddus i'r cynigion hynny.

1. Hoffem ichi anfon copi o gynigion y Tasglu ar gyfer mesurau dros dro, a gyflwynodd ichi ym mis Hydref 2019, at y Pwyllgor.

2. Hoffem ichi ddarparu copi o'ch ymateb i'r cynigion hynny.

Nodwn eich bod yn bwriadu sefydlu 'system gwynion dros dro', a fydd yn weithredol o 1 Ionawr 2021, a'ch bod wrthi'n recriwtio Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro ar gyfer Cymru.

3. Hoffem ichi roi esboniad manwl o'r system gwynion dros dro a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddNHAMG@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddCCERA@senedd.wales

 0300 200 6565

4. Hoffem ichi egluro a fydd mesurau dros dro eraill yn cael eu rhoi ar waith, ar wahân i'r system gwynion, i helpu i lenwi'r bylchau llywodraethu a fydd yn codi ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac, os felly, bydd fydd y mesurau hyn?

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb gennych erbyn **dydd Llun 7 Rhagfyr 2020** fan bellaf, fel y gallwn ei ystyried pan fyddwn yn eich holi yn ein cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2020.

Yn gywir,



Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

